## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fioamrywiaeth Ffermio Cynaliadwy

**Dydd Mawrth 17 Mai 2022, 12:00 - 13:30**

Ar Zoom, wedi'i ffrydio i YouTube

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| John Griffiths AS | Llafur – Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol |
| Delyth Jewell AS | Plaid Cymru - Is-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol |
| Huw Irranca-Davies AS | Llafur |
| Llŷr Gruffydd AS | Plaid Cymru |
| Peter Fox AS | Ceidwadwyr |
| Sam Kurtz AS | Ceidwadwyr |
| Lesley Griffiths AS | Llafur / Llywodraeth Cymru |
| Andrew Bettridge | Swyddfa John Griffiths AS |
| Rhys Taylor | Swyddfa Jane Dodds AS |
| Dan Rose | Swyddfa Carolyn Thomas AS |
| Lee Parsons | Swyddfa Peredur Owen Griffiths AS |
| Lucien Wise | Swyddfa Jenny Rathbone AS |
| James Owen | Llywodraeth Cymru |
| Liz Smith | Cyswllt Amgylchedd Cymru – ysgrifenyddiaeth |
| Karen Whitfield | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Llinos Price | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Emily Durrant | WWF |
| Arfon Williams | RSPB |
| Jess McQuade | WWF |
| Andrew Tuddenham | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| David Williams | Llais y Goedwig |
| Rebecca Brough | Y Cerddwyr |
| Nigel Pugh | Coed Cadw |
| Jerry Langford | Coed Cadw |
| Shea Buckland-Jones | WWF |
| Tim Hoogwerf | Ymddiriedolaeth John Muir |
| Darryl Cox | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn |
| Kate Rees | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Tracy Nettleton | RSPB |
| Hannah Woodall | RSPB |
| Clare Dinham | Buglife |
| Jane Davidson | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Fraser McAuley | Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad |
| Clare Sain-ley-Berry | Cynnal Cymru |
| Anthony Geddes | Confor |
| Elfyn Henderson | Y Gwasanaeth Ymchwil |
| Teleri Fielden | Undeb Amaethwyr Cymru |
| Hywel Morgan | Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur |
| Hilary Kehoe | Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur |
| Mark Steer | Grŵp Ffwng Morgannwg |
| Sarah Jones | Dŵr Cymru |
| Rachel Lewis-Davies | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (NFU Cymru) |
| Dylan Morgan | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (NFU Cymru) |

| | |
|---|---|
| Steven Jacobs | Ffermwyr a Thyfwyr Organig |
| Gethin Owen | Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur |
| Mari Arthur | Afallen |

**Cofnodion**

Mae'r cyfarfod cyfan ar gael i'w wylio ar YouTube, ac mae pob cyflwyniad ar gael ar ffurf PDF drwy glicio ar y linc hon.

**1) Cyflwyniad a chyd-destun**

Ar ran yr ysgrifenyddiaeth, croesawodd Liz Smith o Gyswllt Amgylchedd Cymru bawb i'r cyfarfod ac esboniodd sut i ymuno yn y drafodaeth ar Twitter, ar ffenestr sgwrsio YouTube ac ar swyddogaeth sgwrs fewnol Zoom.

Eglurodd John Griffiths gefndir y cynlluniau ffermio newydd arfaethedig yng Nghymru a fydd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd. Esboniodd fod y dull hwn yn cydnabod bod angen yr amgylchedd naturiol arnom – a hwnnw'n doreithiog o ran bywyd gwyllt – yn ogystal â chynnyrch fel bwyd a deunyddiau adeiladu, a hyn oll er mwyn darparu gwasanaethau fel dŵr glân, priddoedd iach, lliniaru llifogydd, dal a storio carbon, a'r manteision i'n llesiant sy'n dod yn sgil bod mewn cysylltiad â natur. Yn eu tro, mae'r gwasanaethau ecosystem hyn yn dod yn sylfaen ar gyfer cefnogi economi wledig lewyrchus a gwydn.

**2) Cyflwyniad RSPB Cymru: Pam mae angen Cynllun Ffermio Cynaliadwy a fydd yn gwobrwyo canlyniadau amgylcheddol yng Nghymru.**

Eglurodd Arfon Williams yr angen am newid, gan amlygu'r gostyngiadau enfawr a welwyd ym myd natur dros y 50 mlynedd diwethaf, a'r ffaith bod un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru yn wynebu difodiant.

Un o'r prif resymau am hyn yw dulliau ffermio sy'n methu â diogelu byd natur, a'r ffaith bod y Polisi Amaethyddol Cyffredin, er iddo gymell dwysáu amaethyddol, eto yn dal i fethu â rhoi sicrwydd i ffermydd (h.y. mae 800 yn llai o ffermydd yng Nghymru nag yn 2014) na sicrhau gwerth am arian ychwaith. Nid yw cynlluniau amgylcheddol llai - megis Glastir - wedi bod yn ddigon i wneud iawn am hyn, felly mae angen i ni sicrhau bod byd natur yn ganolog os ydym am i'n hecosystemau diraddiedig (ac felly'r economi amaethyddol) fod yn wydn.

Tynnodd sylw at y ffaith y gall ffermio, gyda'r gefnogaeth gywir, fynd i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd, sicrhau nwyddau amgylcheddol hanfodol a chynhyrchu bwyd. Siaradodd am yr angen i weithredu Datrysiadau Ar Sail Natur; cefnogi Ffermio sydd o Werth Mawr i Natur; cymell rheoli cyfrannau o ffermydd yn dda ar gyfer natur; cynnwys mwy o goed ar ffermydd; cynlluniau sy'n gweithio ar gyfer rhywogaethau â blaenoriaeth gydag ymrwymiadau hirdymor; a chefnogi ffermydd i newid i ddulliau agroecolegol. Yna rhoddodd Arfon enghreifftiau o ffermydd natur-gyfeillgar sydd eisoes yn gweithio fel hyn (a thrwy'r Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur), o Gaerhys yn sir Benfro, Esgairllaethdy yn sir Gaerfyrddin, a fferm Argoed yn sir y Fflint.

**3) Cyflwyniad WWF Cymru: Creu system fwyd yng Nghymru sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan ystyried ein cyfrifoldeb byd-eang a'r cyfle i gyflawni hyn drwy'r Bil Amaethyddiaeth.**

Amlinellodd Jess MacQuade yr 'her driphlyg' ar gyfer defnydd tir wrth symud ymlaen: lliniaru effeithiau newid hinsawdd i lai na 1.5 gradd, atal a gwrthdroi colli natur, a bodloni anghenion bwyd a llesiant ehangach poblogaeth ddynol sy'n tyfu.

Amlinellodd ganfyddiadau adroddiad WWF gyda Phrifysgol Caerdydd, ['System Fwyd yng Nghymru sy'n Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol'], gan drafod yr angen am system fwyd integredig sydd hefyd yn mynd i'r afael â phroblemau diet iach a chadwyni cyflenwi ag allyriadau uchel.

Yn ôl Jess, y prif argymhelliad ynddo oedd datblygu system agroecolegol, sef yr hyn y mae'r Cenhedloedd Unedig yn ei gweld fel yr ateb i argyfyngau hinsawdd, bioamrywiaeth a bwyd; integreiddio natur a hinsawdd ag agweddau eraill ar y system, megis bwyta bwyd; hyrwyddo dietau iach a chynaliadwy; lleihau gwastraff bwyd; ailsefydlu'r cysylltiadau rhwng y bwyd y mae'r cyhoedd yn ei fwyta a'r bobl sy'n ei gynhyrchu. Dywedodd fod ffermio adfywiol yn golygu lleihau'n sylweddol fewnbynnau cemegol a'r porthiant anifeiliaid a fewnforir, megis soi, sy'n achosi difrod amgylcheddol gartref a thramor. Siaradodd am yr angen am fodel mewnbwn isel, lles uchel ar gyfer da byw a fyddai'n gweithredu fel rhan o systemau ffermio adfywiol.

Mae dadl economaidd gadarn iddo hefyd fel model busnes da. Yn ôl ymchwil WWF ar nitrogen, amcangyfrifir mai cyfanswm cost gwastraff nitrogen o ffynonellau amaethyddiaeth a bwyd ar draws y DU yw tua £2.3 biliwn y flwyddyn, sy'n cyfateb i hanner yr holl elw amaethyddol.

Troes Jess at yr adroddiadau ['Land of Plenty'] a ['Global Responsibility'], gan amlinellu sut mae WWF wedi gosod llwybrau datgarboneiddio a dadansoddiadau o'r newidiadau sydd eu hangen ar draws y sector i gyrraedd targedau hinsawdd. Disgrifiodd y Bil Amaethyddiaeth fel cyfle enfawr i brif ffrydio ffermio adfywiol ac i osod cyfnod pontio a fyddai'n helpu i ddod â phob fferm ar daith i sero net.

**4) Trafodaeth:** Arweiniodd Delyth Jewell drafodaeth fer rhwng y cyflwyniadau. Roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys:

- Yr angen i integreiddio mesurau rheoli llifogydd i ffermydd mewn ffordd naturiol.
- Sut i sicrhau buddsoddiadau mewn buddsoddiad cynaliadwy yn y gadwyn gyflenwi – cytunodd Arfon a Jess fod angen dull 'o'r fferm i'r fforc', a bod angen i bolisi cyhoeddus a chadwyni cyflenwi gydweithio i greu hyn. Tynnodd Arfon sylw at y ffaith y bydd wastad 'enwau mawr yn y farchnad', ac y bydd rhywfaint o fwyd yn gorfod dod o'r tu allan i Gymru/y DU o hyd, ond bod rhaid i ni ddatblygu'r cadwyni hynny sydd â pherthynas decach â ffermwyr a chynhyrchwyr. Siaradodd am y potensial i gaffael callach fyrhau cadwyni cyflenwi, a thynnodd Jess sylw at waith trylwyr yn sir Gaerfyrddin sy'n edrych ar hyn i greu gwell mynediad at fwyd lleol drwy gaffael.
- Cafwyd trafodaeth hefyd ar yr angen i fynd i'r afael yn well â datblygiad bwyd trefol, a chyfeiriodd Shea Buckland-Jones at ymrwymiad y Senedd i Strategaeth Fwyd Gymunedol fel lle da i hyn gael ei wreiddio.

**5) Cyflwyniad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: Sut beth yw arfer gorau? Astudiaeth achos o'r prosiect 'Talu am Ganlyniadau' ar [benrhyn Llŷn].**

Adroddodd Andrew Tuddenham yn ôl ar y Cynllun Rheoli Cynaliadwy a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i dreialu dull 'seiliedig ar ganlyniadau' o ymdrin â thaliadau amgylcheddol i ffermydd. Mae hyn yn berthnasol i fferm gyfan ac mae'n cwmpasu amrywiaeth o diroedd/cynefinoedd sy'n nodweddiadol i Gymru. Ymdriniodd â'r canlynol:

- Sut i annog ffermydd i fynd y tu hwnt i'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol i ddarparu mwy o nwyddau cyhoeddus.
- Galluogi ffermwyr i sicrhau canlyniadau drwy eu penderfyniadau rheoli eu hunain, yn hytrach na dilyn cyfarwyddiadau sy'n seiliedig ar reolau.
- Annog cynyddu'r canlyniadau trwy gymhellion talu.
- Datblygu gwybodaeth ffermwyr am ddulliau natur-gyfeillgar drwy systemau cymorth cryf, yn ogystal ag arddangos yr achos busnes i gynyddu elw drwy'r dulliau hyn. Roedd dangos y canlyniad cynaliadwy mwyaf yn bwysig ar gyfer hyn (h.y. mae fferm lai yn fferm fwy proffidiol mewn gwirionedd).

Canfu'r prosiect fod canlyniadau amgylcheddol yn gryf ac yn gadarnhaol, h.y. cynefinoedd mwy amrywiol ac o ansawdd llawer gwell, a bod ansawdd y cymorth a'r cyngor i'r fferm yn hanfodol i'w lwyddiant. Fodd bynnag, rhybuddiodd Andrew ei bod gwelliannau'n cymryd amser (cynefinoedd yn gyntaf, gyda rhywogaethau'n dilyn), felly mae ymrwymiadau hirdymor a dibynadwyedd yn allweddol.

**6) Trafodaeth**

- Gofynnodd Huw Irranca-Davies pa mor barod oedd Cymru i gael tîm cynghori mor fawr ag y bo'n ofynnol ar gyfer newid mor fawr. Ymatebodd Andrew trwy ddweud ei bod yn bwysig iddynt fod y cyngor yn cael ei wahanu, felly ceir y cyngor amgylcheddol gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ond bydd y cyngor economaidd yn annibynnol (i osgoi gwrthdaro o gofio'r berthynas landlord-tenant). Credai hefyd ei bod yn bwysig i newidiadau i arferion gael eu gweld fel buddsoddiad ar gyfer fferm well, yn hytrach na 'chost barhaus'.
- Gofynnodd Steven Jacobs o Ffermwyr a Thyfwyr Organig a oeddent yn cael eu hystyried yn llwyddiant yn gyffredinol. Dywedodd Andrew fod y 'daith' yn hir a bod angen ei hymestyn, ond bod hynny'n creu gwell perthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'i thenantiaid, yn ogystal â sicrhau bod y dull busnes yn un ar gyfer fferm gyfan hyfyw, yn hytrach nag edrych ar y sefyllfa ecolegol yn unig.
- Amlygodd Teleri Fielden o FUW bwysigrwydd ansawdd y cyngor yn ogystal â'r gost, gan nodi bod hwyluso Glastir yn costio mwy na Chynllun y Taliad Sylfaenol. Cytunodd Andrew, gan ddweud bod angen buddsoddi hefyd mewn hyfforddi cynghorwyr a bod angen cymorth uniongyrchol ar y fferm, yn hytrach na 'chyngor cyffredinol' yn unig. Ychwanegodd Arfon y byddai'n dda cael archwiliad cynghorol, i fraenaru'r tir ar gyfer lansiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, i wybod lle y gellir ei wella. Roedd hefyd am weld mynediad i ffermydd astudiaethau achos i ddangos sut beth yw 'da'.

**7) Sylwadau'r Gweinidog**

Gwnaeth Delyth wahodd Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig, i siarad:

- Disgrifiodd Lesley Griffiths hwn fel cyfle prin sy'n deillio'n hymadawiad â'r UE i ddiwygio ffermio, a rhoddodd ddiweddariad ar sefyllfa Llywodraeth Cymru o ran lansio'r cynllun cynaliadwy newydd. Yn dilyn sawl ymgynghoriad, a Phapur Gwyn y Bil Amaethyddiaeth, mae fframwaith wedi cael ei ddatblygu – diolchodd i'r Grŵp Rhanddeiliaid ar Ddiwygio Rheoli Tir am helpu gyda hyn.
- Dywedodd y bydd y cynllun yn canolbwyntio ar adfer gwydnwch ecosystemau, a gwella cyflwr a chysylltedd ardaloedd lled-naturiol; creu rhwydweithiau ecolegol gwydn a fydd o fudd i amrywiaeth o rywogaethau; a rheoli pridd yn well.
- Pwysleisiodd y bydd yn wahanol i daliadau sylfaenol: bydd lefel y taliad yn gysylltiedig â chamau gweithredu i greu a chynnal cynefinoedd a chynyddu bioamrywiaeth. Bydd tair

haen: cyffredinol, dewisol, a chydweithredol (h.y. creu cynefinoedd rhyng-gysylltiedig ar draws tirweddau).

- Gan amlygu maint y newid sydd ei angen, er mwyn cyrraedd targed Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd ar gyfer plannu coed, dywedodd y bydd angen 43,000 hectar o goetir arnom erbyn 2030 a 180,000 hectar erbyn 2050; cyfwerth ag 86 miliwn o goed erbyn 2030.
- Dywedodd y Gweinidog y bydd amlinelliad manylach yn cael o'r cynllun yn cael ei gyhoeddi yn yr haf, a phwysleisiodd y pwysigrwydd y maent wedi'i roi ar weithio gyda ffermwyr i gyd-gynhyrchu hyn, er mwyn sicrhau y gellir ei gyflawni ac y byddai'n ymarferol. Bydd mwy o ymgynghori yn ystod yr haf a fydd yn llywio'r fersiwn derfynol.

**8) Trafodaeth**

- Tynnodd Llyr Gruffydd sylw at yr awgrym o archwiliad cynghorol, a gofynnodd a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw beth fel hyn eto neu wedi asesu'r capasiti presennol mewn unrhyw ffordd; dywedodd hefyd y gallai ffermydd cynghorau fod yn esiamplau o sut i gyflawni hyn, gan awgrymu y gallai tenantiaethau gyda chynghorau fod yn ddibynnol ar dreialu dulliau mwy arloesol. Dywedodd y Gweinidog y byddant yn defnyddio Taliadau Gwledig Cymru a'u bod yn gweithio i sicrhau bod capasiti'n cynyddu, ochr yn ochr â'r Asesydd Amaethyddiaeth, ond cyfaddefodd nad oedd pethau wedi symud mor gyflym ag y dymunent oherwydd y pandemig. Ymhelaethodd James Owen drwy ddweud eu bod wedi derbyn adborth a gafwyd o'r ymgynghoriadau hyd yn hyn a'u bod yn ceisio teilwra i'r ffordd fwyaf effeithiol o roi cymorth. Soniodd rhanddeiliaid eraill, yn y blychau sgwrsio, am bwysigrwydd cymorth cydrhwng ffermydd a rhannu gwybodaeth ymysg ffermwyr.
- Cododd Jane Davidson bryderon lleol ynghylch 'naratif' yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru fod cwmnïau'n prynu tir ar gyfer pren, neu at ddibenion eraill, ac roedd hi am gael sicrwydd, pwy bynnag sy'n berchen ar y tir, y bydd disgwyl iddynt gyflawni uchelgeisiau Cymru o ran cynaliadwyedd. Cytunodd y Gweinidog; roedd hi ei hun wedi clywed hyn yn anecdotaidd gan bobl sy'n dweud bod hyn yn cael ei wneud at ddibenion gwrthbwyso carbon. Ond nid oedd hi eisiau 'colli tir amaeth da' i sefydliadau byd-eang sydd am ei ddefnyddio ar gyfer hynny. Dywedodd fod gweision sifil yn gwneud gwaith i edrych ar hyn, ac anogodd bobl i rannu unrhyw wybodaeth berthnasol â hi a Julie James. Roedd hi am sicrhau bod cymunedau gwledig yn cael eu cefnogi a 'chadw ffermwyr yn ffermio'. Ychwanegodd Jess MacQuade y gall hyn hefyd gael effaith ar ein cyfrifyddu o ran allyriadau; h.y. ni fyddai'n cael ei gyfrifyddu yng Nghymru o gael ei brynu gan gwmnïau rhyngwladol.
- Ychwanegodd Liz Smith ei bod hefyd yn bwysig sicrhau bod newydd-ddyfodiaid, a 'chenhedlaeth newydd o ffermwyr', yn dal i allu manteisio ar y cyfleoedd hynny. Cytunodd y Gweinidog, gan ddweud ei bod yn edrych ar arferion Llywodraeth yr Alban o ran y thema hon hefyd.

Wrth gloi, dywedodd Arfon ei fod yn falch o weld bod yr holl randdeiliaid, yn ei dyb ef, yn cydweithio'n agosach ar y materion hyn, a'i fod yn falch o weld ffermwyr yn cymryd rhan yn y cyfarfod heddiw. Dywedodd Andrew fod y cymorth ymgynghorol yn bwysig, felly roedd yn falch o gael llawer o ffocws ar hynny, yn ogystal â chael y ffocws hirdymor hwnnw ar wydnwch ecolegol. Cytunodd Liz na fyddwn byth yn gallu cael systemau bwyd cynaliadwy na mynd i'r afael â'r argyfwng natur o bell heb y gwydnwch hwnnw.

**Adroddiadau perthnasol**

Ar ôl y cyfarfod, rhannwyd yr adroddiadau perthnasol a ganlyn â'r rhai a oedd yn bresennol ac â phob Aelod o'r Senedd:

- 'Gweledigaeth Rheolaeth Tir Cynaliadwy dros Gymru', Cyswllt Amgylchedd Cymru, mis Gorffennaf 2017 – yn Gymraeg / yn Saesneg

- Papur briffio gan Gyswllt Amgylchedd Cymru, mis Mawrth 2022: Sustainable Food Production and food security
- Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur: Nature Means Business
- Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur: A Practical Guide to Net Zero Carbon for UK Farming
- Adroddiad yr RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Natur, 'Paying for Public Goods', gyda dadansoddiad o'r ffigurau ar gyfer pob un o wledydd y DU
- WWF: Land of Plenty – sut i gyflawni ymrwymiadau hinsawdd y DU, gydag argymhellion unigol ar gyfer pob gwlad
- WWF: System Fwyd yng Nghymru sy'n Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol
- WWF: Wales and Global Responsibility
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Ffermio ar gyfer Dyfodol Llŷn - Prosiect Talu am Ganlyniadau